# AMDDIFFYN MYNYDD EPYNT

**Diweddariad Cymunedol | Rhagfyr 2025**

Mae Bute Energy yn bwriadu adeiladu Parc Ynni Garreg Fawr ar Fynydd Epynt, gan gwmpasu pentrefan Llanfihangel Nant Brân.

Byddai 22 o dyrbinau, dros 720 troedfedd o uchder (dros 4 gwaith maint Colofn Nelson), gydag oes 25–30 mlynedd ar y fwyaf, yn sugno miliynau o litrau o ddŵr i wneud 50,000 tunnell o goncrit i'w sylfeini parhaol. Byddai'r tyrbinau hyn yn creithio'r bryniau, gan ymgodi uwchlaw'r gorwel, a difetha'r Warchodfa Awyr Dywyll. Byddai llawer o ffyrdd newydd i'r Parc Ynni gydd thraffig trwm am flynyddoedd i ddod, a hynny ar gyrion Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Byddai'r rhan fwyaf o'r trydan a'r elw yn gadael Cymru, a'r niwed amgylcheddol a'r ecsbloetio yn parhau.

Cefnogwn ynni adnewyddadwy, ond mae angen prosiectau cymunedol llai er budd Cymru, nid gorsafoedd pŵer diwydiannol a'r effeithiau dinistriol di-droi'n-ôl a ddaw yn eu sgil ar y dirwedd, bywyd gwyllt a'n cymunedau.

# PROTECT EPYNT

**Community update | December 2025**

Bute Energy is proposing to build Garreg Fawr Energy Park on Mynydd Epynt, surrounding the hamlet of Llanfihangel Nant Brân.

Twenty-two turbines, over 720 feet high (over 4 times the height of Nelson's Column), with a lifespan of only 25–30 years, would stand on foundations requiring millions of litres of water to pour around 50,000 tons of concrete that will never be removed. They would scar the hills, dominate the skyline, and spoil the Dark Sky Reserve. Miles of new access roads would cross the edge of Bannau Brycheiniog National Park, bringing years of heavy traffic. Most of the electricity and profits would leave Wales, while the environmental costs remain, repeating a long pattern of exploitation.

We support renewable energy, but want smaller scale community projects that genuinely serve Wales, not industrial power plants that have a devastating and irreversible impact on landscapes, wildlife, and communities.




**Beth yw cost cynnydd, pan fydd y tir a'n cymunedau'n goddef y golled?**

**At what cost do we call it progress, when the land and our communities bear the loss?**

Arhoswch | Meddyliwch eto | Gweithiwch Gyda'ch Gilydd

Pause | Rethink | Collaborate

# EFFAITH TYRBINAU GWYNT A'R PROSIECT HWN
# IMPACT OF WIND TURBINES & THIS PROJECT




### Costau Cudd Ynni "Gwyrdd"

Mae tyrbinau gwynt yn gwneud cadwyn fyd-eang o lygredd o'r cloddio cychwynnol hyd at dirlenwi. Maent yn ddibynnol ar gloddio am fwynau prin sy'n gadael creithiau gwenwynig ac ymbelydrol ar y tir ac yn y dŵr. Prin iawn mae modd ailgylchu'r llafnau enfawr ac maent yn gollwng microblastigau i'r amgylchedd drwy gydol eu hoes. Mae pob cam yn gadael ôl troed na all y blaned ei dioddef.

### The Hidden Costs of "Green" Energy

Wind turbines create a global chain of pollution from extraction to landfill. They rely on rare earth mining that leaves toxic, radioactive scars on land and in water. Their vast blades are almost impossible to recycle and shed micro-plastics into the environment throughout their lifetime. Every stage leaves a footprint the planet can't afford.

### Effeithiau ar Ecoleg Leol

- Byddai cloddio mawndiroedd yn difrodi ucheldiroedd bregus, trwy ryddhau $CO_2$ a dinistrio gallu'r ddaear i storio carbon.
- Byddai llafnau tyrbinau yn lladd adar ac ystlumod. Byddent hefyd yn lleihau neu ddinistrio am byth gynefinoedd a llwybrau mudo rhywogaethau prin megis barcutiaid coch a gylfinirod "rhestr goch" Yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN).
- Byddai cyrsiau dŵr yn cael eu sychu, eu dargyfeirio neu eu llygru, gan fygwth cyflenwadau dŵr preswyl, cynyddu'r risg o lifogydd, a niweidio tir ffermio.

### Effeithiau ar Gymunedau Lleol

- Dengys tystiolaeth effeithiau iechyd andwyol ar bobl ac anifeiliaid am filltiroedd o gwmpas gweithfeydd mawr achos sŵn tyrbinau, is-sain, dirgryniad a chysgodion symudol.
- Byddai ychydig o dirfeddianwyr yn elwa, gan ddinistrio etifeddiaeth teuluoedd sy'n gofalu am y tir hwn ers cenedlaethau.
- Byddai preswylwyr yn cael eu hynysu gan weld mwy o ddamweiniau a marwolaethau yn sgil traffig cynnyddol wrth adeiladu'r safle.


### Local Ecological Impacts

- Peatland excavation would devastate fragile uplands, by releasing $CO_2$ and destroying the ground's capacity to store carbon.
- Turbine blades would kill birds, bats, and habitats. Migratory routes of IUCN red list species like red kites and curlews would be degraded or lost.
- Watercourses would be drained, diverted or polluted, threatening residential water supplies, heightening flood risk, and harming farmland.

### Impacts on Local Communities

- Evidence suggests turbine noise, infrasound, vibration, and shadow flicker can affect human and animal health for several miles around big installations.
- A few landowners would profit, while the legacy of generations of families who've cared for this land would be destroyed.
- Two years of construction traffic would isolate residents and increase risk of accidents and deaths.

# SAFLEOEDD ARFAETHEDIG PROPOSED SITES




## CYMRU'N CYRRAEDD CROESFAN

Ar hyn o bryd mae Bute Energy/Green GEN Cymru yn gofyn am ganiatâd cynllunio ar gyfer 14 parc ynni yn ogystal â llinellau peilonau ychwanegol. Byddai'r rhain yn ffurfio stribed diwydiannol trwy dirweddau sydd ymhlith y rhai mwyaf agored a'r gorau sy gyda ni. Pe byddent yn cael eu hadeiladu, byddai cefn gwlad Cymru yn cael ei drawsnewid ar raddfa nas gwelwyd ers cyfnod y pyllau glo. Rydym yn cydnabod bod angen cymryd camau mewn perthynas â'r hinsawdd, ond nid gorsafoedd gwynt corfforaethol enfawr sy'n dinistrio tirweddau ac yn hollti cymunedau yw'r ateb.

**Mae hyn yn digwydd ar raddfa genedlaethol. Mae'r effaith yn lleol. Rhaid i ni weithredu gyda'n gilydd.**

## WALES AT A CROSSROADS

Bute Energy/Green GEN Cymru currently has 14 energy parks and additional pylon lines in the planning system, which would form an industrial belt through some of our most open and rich landscapes. If built, they would transform rural Wales on a scale unseen since the coal mining era. We recognise the need for climate action, but vast corporate wind plants that destroy landscapes and divide communities are not the answer.

**The scale is national. The impact is local. We need to act together.**

# SUT I DDOD YNGHYD
# HOW TO COME TOGETHER

AMDDIFFYN MYNYDD EPYNT

### Mae Eich Llais yn Cyfrif

Rydym ni, y bobl leol wedi dod ynghyd i amddiffyn dyfodol ein tir, y bywyd gwyllt a'n cymunedau, ac rydym yn eich gwahodd chi i ymuno â ni.

Ym 1940, gorfodwyd teuluoedd Mynydd Epynt i wneud lle i Ardal Hyfforddi'r Weinyddiaeth Amddiffyn Pontsenni (SENTA). Ar hyn o bryd rydym yn wynebu bygythiad arall achos gwaith ynni diwydiannol Bute Energy.

Gyda'n gilydd gallwn ddysgu o'r gorffennol, gan amddiffyn Canolbarth Cymru rhag diwydiant pellach gan greu dyfodol gwirioneddol wyrdd. Byddwn yn adfer cydbwysedd, diogelu bywyd gwyllt, a chynnal y cymunedau y mae ganddynt gymaint o gariad at y tir hwn, lle maent yn byw ac yn gweithio.

### Your Voice Matters

As local people, we've come together to protect the future of our land, wildlife, and communities, and we invite you to join us.

In 1940, families were forced from Mynydd Epynt to make way for SENTA, the MOD Sennybridge Training Area. Now we face another threat from Bute Energy's industrial energy plant.

Together we can learn from the past, protect Mid Wales from further industrialisation, and build a genuinely green future that restores balance, safeguards wildlife, and sustains the communities who love, live, and work on this land.

**Gyda'n gilydd, gallwn amddiffyn y tir hwn.**
Dyma sut i gymryd rhan:

**Cadwch yn gyfredol â'r hyn sydd ei angen** — ymunwch â'n rhestr bostio.
**Rhannwch eich doniau** — gwirfoddolwch eich amser neu sgiliau.
**Atgyfnerthwch ein llais** — cyfranwch at gronfa'r ymgyrch.

**Amddiffyn mynydd Epynt**

**Together, we can protect this land**
Here's how to get involved:

**Stay informed** — join our mailing list.
**Share your gifts** — volunteer your time or skills.
**Strengthen our voice** — donate to the campaign fund.

**Protect Epynt**

**contact@ame.cymru**

**www.ame.cymru**

#StopiwchYnniBute #AMEpynt

#StopButeEnergy #ProtectEpynt

© AMDDIFFYN MYNYDD EPYNT 01/12/2025